


Stori Reuben

Mae gan Reuben de Maid, a anwyd yng Nghaerdydd, ddiddordebau unigryw am fachgen 12 oed. O ganlyniad i'w ddiddordeb brwd mewn colur, mae wedi ymddangos ar un o'r rhaglenni sgwrsio comedi mwyaf poblogaidd yn UDA, the Ellen Degeneres Show, ac mae ganddo dros 80,000 o ddilynwyr ar Instagram yn barod.



Er ei fod yn ifanc, mae ganddo uchelgais i ddechrau ei gwmni colur ei hun a bod yn ganwr proffesiynol.

“Dw i wedi mwynhau canu a chelf erioed,” dywedodd. “Arweiniodd fy niddordeb mewn celf at wyllo fideos cyfarwyddiadau colur ar YouTube. Roeddwn i wrth fy modd, roeddwn i'n meddwl eu bod nhw'n wych. Cyn pen dim, dechreuais ymarfer fy hun, a gwisgo colur yn y tŷ.”

Roedd mam Reuben, Vicky, yn ei annog i ddilyn ei ddiddordebau, ond roedd yn ymwybodol y gallai Reuben wynebu stigma am fod â diddordebau sy'n cael eu gweld yn rhywbeth 'benywaidd' yn y gymdeithas.

Dywedodd: “Doeddwn i ddim eisiau annog Reuben i beidio â gwisgo colur, ond mae llawer o bobl yn y byd fyddai'n gwneud sylwadau negyddol am ei ddiddordebau. Mae'n lwcus y bu ganddo berthynas agos â'r myfyrwyr a'r athrawon yn ei ysgol gynradd ers iddo ymuno, felly roedden nhw'n gadarnhaol iawn am y peth – ac roedd Reuben yn gadarnhaol hefyd.”

Er bod ei brofiad yn yr ysgol gynradd yn gadarnhaol, mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod rhywfaint yn anoddach i'r bachgen 12 mlwydd oed talentog. Ymunodd â grŵp drama, lle nad oedd y plant eraill yn ei dderbyn, ac roedd symud i'r ysgol uwchradd yn ddiweddar wedi arwain at wynebu heriau eraill.

“Roedd y bobl oedd yn fy adnabod i'n barod yn wych, ond roedd cwrdd â fy nghydddisgyblion newydd yn anodd iawn,” dywedodd. “Byddai pobl yn galw enwau cas

arnaf, ac mae pobl yn edrych ddwywaith arnaf yn yr ysgol ac ar y stryd. Mae'r sylwadau gwaethaf wedi bod gan bobl ar-lein – alla i ond ei ddisgrifio fel trolïo.”

Pan ofynnwyd iddo a oedd ganddo neges i bobl sy'n wynebu ymateb negyddol tebyg, dywedodd: “Peidiwch â phoeni am farn pobl eraill amdanoch. Byddwch yn gryf, hyd yn oed ar adegau anodd, neu nhw fydd yn ennill.

“Mae'n hen bryd i ni sefyll a brwydro yn erbyn anghydraddoldeb rhywiol. Dw i'n credu y dylai pawb deimlo'n rhydd i ddangos ei bersonoliaeth ei hun. Dyna pam rwy'n annog pawb i gefnogi'r ymgyrch #dymafi.”

Rydym yn dechrau sgwrs am anghydraddoldeb rhywiol a sut mae'n effeithio ar bobl ledled Cymru. O ddyn yn gweithio fel bydwraig i fenyw'n gweithio fel mecanig, bachgen ifanc yn gwisgo colur i ferch ifanc yn chwarae yn y mwd gyda'i Jac Codi Baw – mae pobl o bob cwr o Gymru eisoes yn herio 'normau' a stereoteipiau rhywedd, ond mae'r anghydraddoldeb yn parhau.

Ymunwch â'r sgwrs ar Facebook a Twitter gan ddefnyddio #dymafi i'n helpu i greu Cymru sy'n herio stereoteipiau rhywedd, Cymru sy'n torri'n rhydd o'r pwysau i gydymffurfio a Chymru sy'n dathlu #dymafi.